




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board



Pecyn Gwybodaeth
Prentis Gwasanaethau Digidol


Beth yw Prentis Gwasanaethau Digidol?

- ✓ A ydych am fod yn rhan o dîm sy'n helpu Hywel Dda i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd effeithiol o ddata, gwybodaeth a thechnoleg i gynnal a gwella iechyd a'r broses o ddarparu gofal iechyd?
- ✓ A ydych yn barod am her?
- ✓ A fydddech wrth eich bodd yn cael bod mewn swydd lle byddwch mewn cysylltiad ag aelodau staff o bob maes?
- ✓ A hoffech ennill arian wrth ddysgu?

Os atebwyd pob un o'r cwestiynau uchod yn gadarnhaol, yna gallai'r rôl hon fod yn addas ar eich cyfer chi!

Mae'r Tîm Gwasanaethau Digidol yn cynorthwyo'r sefydliad i sicrhau bod yr holl raglenni digidol yn perfformio hyd eithaf eu gallu er mwyn helpu gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i gyfathrebu'n rhugl, ac i alluogi pobl i gael mynediad at y gofal y mae arnynt ei angen, a hynny mewn modd cyflym a hawdd. Ein rôl yw sicrhau bod y systemau digidol yn creu sylfaen y byddwn yn adeiladu gwasanaeth iechyd sy'n fodern, yn ddyfeisgar ac yn ymatebol arni. Mae galluogi gwybodaeth i symud rhwng darparwyr gofal yn y Bwrdd Iechyd a'r tu hwnt iddo, yn ogystal â rhwng darparwyr gofal a chleifion, yn ddull allweddol o sicrhau gwasanaeth iechyd a gofal sy'n ddiogel, yn gyfleus ac wedi'i bersonoli.

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr rhugl ac uchelgeisiol, sydd â lefel uchel o uniondeb personol, a fyddai'n dymuno datblygu gyrfa mewn Gwasanaethau Digidol. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu croesawu ag angerdd holl werthoedd y Bwrdd Iechyd gan y bydd hyn wrth galon popeth a wna.



Mae'r Rhaglen Prentisiaeth Gwasanaethau Digidol yn gyfle cyffrous a fydd yn eich galluogi i hyfforddi i ddod yn aelod gwerthfawr o'r Tîm Gwasanaethau Digidol trwy ddysgu seiliedig ar waith. Byddwch yn dechrau arni trwy gwblhau Prentisiaeth Sylfaen mewn Cymorth Cymwysiadau Digidol (lefel 2), ac yna'n symud yn eich blaen i wneud Prentisiaeth mewn Cymorth Cymwysiadau Digidol (lefel 3).

Sut y mae'r Rhaglen Prentisiaeth Gwasanaethau Digidol yn wahanol i raglenni prentisiaethau eraill?

Mae'r Rhaglen Prentisiaeth Gwasanaethau Digidol yn cyfuno amryw o raglenni dysgu yn un, gan amlygu ein hymrwymiad i ddarparu llwybr uniongyrchol i ddod yn aelod o'r Tîm Gwasanaethau Digidol. Bydd yn eich galluogi i ennill ystod eang o brofiadau wrth weithio yn y Gwasanaethau Digidol, ac yn rhoi sylfaen gadarn i chi gamu ymlaen ymhellach yn eich gyrfa yng Ngwasanaethau Digidol y GIG. Byddwch yn ennill arian trwy gydol yr amser y byddwch yn dysgu.

Amlinelliad o'r Rhaglen Prentisiaeth Gwasanaethau Digidol				
Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 mewn Cymorth Cymwysiadau Digidol	Medi 2021 hyd at Fedi 2022			Isafswm Cyflog Prentisiaeth Cenedlaethol
Prentisiaeth Lefel 3 mewn Cymorth Cymwysiadau Digidol		Medi 2022 hyd at Mawrth 2023		£14,799 y flwyddyn, gan gynyddu i £15,856 ar ôl 6 mis
Swyddog Gwasanaethau Digidol			Mawrth 2023	Band 3 £19,737 y flwyddyn

*Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr hawl i addasu'r cymwysterau ar sail newidiadau i gymwysterau, gofynion y sector neu gyllid.

*Roedd cyfraddau'r cyflogau yn gywir ym mis Rhagfyr 2020.

Beth y mae'r Rhaglen Prentisiaeth Gwasanaethau Digidol yn ei olygu?

- Byddwch yn ymgymryd â chwrs cynefino cynhwysfawr, a fydd yn eich paratoi ar gyfer eich rôl yn y Bwrdd Iechyd
- Byddwch yn cael 'hyfforddiant y tu allan i'r gwaith' i ddatblygu eich dysgu
- Byddwch yn cael cymorth gan fentor o'r coleg
- Byddwch yn mynd i weithdai, lle bydd gennych gyfle i drafod a rhannu syniadau
- Byddwch yn gweithio tuag at gael cymwysterau galwedigaethol, gan symud trwy'r lefelau wrth i chi ddatblygu
- Bydd gennych gyfle i gysgodu aelodau o'r Tîm Gwasanaethau Digidol, a hynny'n rhan o'r broses gynefino
- Bydd mentor yn cael ei ddynodi ar eich cyfer yn y gweithle, i'ch cynorthwyo ac i helpu i feithrin eich sgiliau trwy gydol eich rhaglen

Beth y byddwch yn ei wneud yn eich rôl?

Byddwch yn ymgymryd â nifer o leoliadau gwaith ar sail cylchdro a fydd yn ategu eich hyfforddiant, a hynny dan oruchwyliaeth:

Maes gwaith y cylchdro	Diben a deilliannau dysgu disgwyliedig
Gweithrediadau Digidol	Mae'r adran TGCh yn gyfrifol am weithrediadau ein gwasanaethau digidol sy'n ymwneud â chyfarpar defnyddwyr, rhwydweithiau, gweinyddion a thelathrebu. Yn ogystal, rydym yn rhoi gwasanaethau newydd ar waith, yn datblygu systemau Web/SharePoint ac yn galluogi prosesau adnewyddu ac adeiladu o'r newydd sydd â gwasanaethau digidol. TGCh yw'r pwynt cyswllt cyntaf hefyd ar gyfer ymholiadau a cheisiadau gan ddefnyddwyr ar draws y Bwrdd Iechyd.
Arloesi Digidol a Thrawsnewid	Cyflenwi'r arloesedd a'r ddarpariaeth i sicrhau y gweithredir unrhyw dechnoleg newydd yn unol ag arfer gorau, a hynny i safon y diwydiant, a sicrhau

	<p>ein bod yn gwireddu'r manteision i'r busnes ac optimeiddiad llawn. Mae'r tîm yn cynnwys Rhaglenni a Darpariaeth, Dyfodol/Arloesedd Digidol a Gwybodeg Glinigol.</p>
<p>Gwasanaethau Gwybodaeth a Datblygu Gwybodaeth</p>	<p>Mae'r adran Gwasanaethau Gwybodaeth yn cynnwys 3 tîm fel y nodir isod</p> <p>Mae'r tîm Gwybodaeth Gorfforaethol yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth o ansawdd uchel a ddefnyddir i reoli'r Bwrdd Iechyd yn effeithiol.</p> <p>Codio Clinigol yw'r broses o drosi'r wybodaeth a ysgrifennir yn nodiadau'r cleifion yn ddata wedi eu codio, yn unol â'r Canllawiau Codio Cenedlaethol a'r cyfarwydddebau a gyhoeddir gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.</p> <p>Mae Datblygu Gwybodaeth yn cynnwys dwy swyddogaeth sydd ar wahân, ond yn rhyngweithio. Mae'r Tîm Datblygu yn gyfrifol am gynnal Warws Data'r Gwasanaethau Gwybodaeth a'r system fewnol ar reng flaen y gwasanaeth sy'n adrodd ar wybodaeth (IRIS).</p>
<p>Llywodraethu Gwybodaeth</p>	<p>Llywodraethu Gwybodaeth yw'r ffordd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ymdrin â'i holl wybodaeth, yn enwedig y wybodaeth bersonol a sensitif sy'n ymwneud â chleifion a chyflogaion.</p> <p>Mae prosesau llywodraethu gwybodaeth da yn hanfodol i sicrhau bod staff ar draws y Bwrdd Iechyd yn ymdrin â gwybodaeth mewn ffordd sy'n gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol er mwyn darparu'r gofal gorau posibl i gleifion.</p>
<p>Dadansoddeg Iechyd</p>	<p>Tîm o ddadansoddwyr gwybodaeth iechyd medrus iawn sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth a dadansoddeg â ffocws er mwyn datblygu systemau â gwerth ychwanegol a fydd yn helpu i lywio'r rheolwyr wrth iddynt wneud penderfyniadau.</p>
<p>Gwasanaethau Busnes Digidol</p>	<p>Gweithio ar draws yr holl swyddogaethau i ddarparu gwasanaethau Llywodraethu, prosesau Datblygu Staff a Gwasanaethau, partneriaethau busnes a chyfathrebu digidol.</p> <p>Mae hynny'n cynnwys y Switsfyrddau ar draws Hywel Dda, sy'n delio â thua 9,000 o alwadau y diwrnod trwy ei wasanaeth pedair awr ar hugain. Mae'r tîm yn gweithio'n agos â'r Tîm Seilwaith, sy'n arwain ar bopeth technegol.</p>

Trosolwg o'r Rhaglen

Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 (12 mis)

Bydd yr unigolion yn cwblhau'r canlynol:

- Cwrs Cynefino'r Brentisiaeth (Coleg)
- Cwrs Cynefino Corfforaethol
- Cwrs Cynefino Tîm
- Adolygu cynnydd bob 61 diwrnod
- Modiwlau Hyfforddiant e-ddysgu Gorfodol
- Sgiliau Astudio
- Cymorth gydag unrhyw anghenion dysgu
- Cymorth gan Fentor a mynediad at swyddogion lles (yn cynnwys tai, ariannol, llesiant)

Mae'r Brentisiaeth yn cynnwys y cymwysterau canlynol:

- Lefel 2 mewn Cymorth Cymwysiadau Digidol
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1 mewn Cymhwyso Rhif
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1 mewn Cyfathrebu
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1 mewn Llythrennedd Digidol

Lefel 3 mewn Cymorth Cymwysiadau Digidol (18 mis)

Bydd yr unigolion yn cwblhau'r elfennau canlynol:

- Lefel 3 mewn Cymorth Cymwysiadau Digidol
- Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Cymhwyso Rhif
- Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Cyfathrebu
- Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Llythrennedd Digidol

Beth yw'r gofynion mynediad?

- Rhaid i chi fod yn frwd dros bopeth digidol
- Rhaid i chi feddu ar TGAU Mathemateg (A*-C), neu gymhwyster cyfatebol
- Rhaid i chi fod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn ym mis Medi 2021
- Rhaid i chi fod wedi byw yn y Deyrnas Unedig/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd am y tair blynedd ddiwethaf
- Rhaid i chi feddu ar safon dda o lythrennedd a gramadeg, a rhoi sylw i fanylion a chywirdeb
- Rhaid i chi fod yn barod i ddefnyddio eich blaengaredd eich hun ac i weithio'n annibynnol ac yn rhan o dîm
- Rhaid i chi allu cyd-dynnu'n dda â phobl ar bob lefel a medru cyfathrebu'n effeithiol
- Rhaid i chi feddu ar brofiad o ddefnyddio pecynnau TG, gan gynnwys Microsoft Word, Excel ac e-bost
- Ni ddylech feddu ar gymhwyster Lefel 2 neu uwch mewn Cymorth Cymwysiadau Digidol
- Ni ddylech fod mewn unrhyw addysg ffurfiol a ariennir gan y llywodraeth ar adeg dechrau'r Rhaglen Prentisiaeth Gwasanaethau Digidol

Sut yr wyf yn gwneud cais?

Rydym yn bwriadu recriwtio dau Brentis Gwasanaethau Digidol

Os hoffech wneud cais am gyfle Prentis Gwasanaethau Digidol, ewch i wefan Hywel Dda, neu dilynwch ein holl gyfleoedd Prentis ar ein tudalen Facebook: Swyddi Hywel Dda

Sicrhewch nad ydych yn colli'r dyddiad cau, a chofiwch ddarllen yr hysbyseb yn ofalus. Yna, llenwch y ffurflen gais a'i hanfon!

Pob Lwc!

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl y dyddiad cau, estynnir gwahoddiad i'r rheiny a fydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn llwyddiannus ddod i fore asesu. Bydd hwn yn ddigwyddiad anffurfiol ac yn gyfle i chi gwrdd â ni, yn ogystal â chael rhagor o wybodaeth am y rhaglen a'r swydd.

Pryd y byddwch yn cael adborth?

Bydd pawb sy'n dod i'r bore asesu yn cael gwybod gan y Tîm Gwasanaethau Digidol a ydynt wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn dechrau ar eich cyflogaeth yn rôl Prentis Gwasanaethau Digidol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ym mis Medi 2021.

Pa ddogfennau y bydd arnoch eu hangen cyn y gallwch ddechrau?

Er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu proses recriwtio sy'n effeithlon ac yn ddiogel, gofynnir i chi ddod â'r ddogfennaeth isod (cofiwch ddarllen hwn yn ofalus):

- Prawf o'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig
- Prawf o hunaniaeth
- Tystiolaeth ar gyfer gwiriad y DBS (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)

Dyddiadau allweddol

Yr hysbyseb yn fyw: 31 Mawrth 2021
Dyddiad cau: 14 Ebril 2021
Dyddiad llunio rhestr fer: 15 Ebrill 2021
Diwrnod Dethol: 26 Mai 2021
Dyddiad Dechrau: 22 Medi 2021

Pam y dylech weithio i ni?

Pam y dylech wneud cais am brentisiaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda?
Dyma rai o'r rhesymau dros wneud hynny:

- Mae prentisiaethau'n ffordd wych o ddechrau ar yrfa yn y GIG
- Mae prentisiaethau'n cyfuno hyfforddiant ymarferol â chyflogaeth sy'n talu ('ennill wrth ddysgu')
- Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â staff profiadol a fydd yn eich cefnogi ac yn eich helpu i feithrin y sgiliau ymarferol y mae arnoch eu hangen
- Byddwch yn ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, a hynny heb dalu ffioedd dysgu
- Byddwch yn cael 27 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn, yn ogystal â Gwyliau Cyhoeddus ychwanegol
- Bydd eich hawl i wyliau yn cynyddu'n unol â'ch gwasanaeth
- Mae gweithio'n rhan o dîm yn brofiad gwych, ac yn gwneud gwahaniaeth go iawn

**Buddsoddwch yn eich dyfodol. Dewch i ymuno â theulu Hywel Dda.
Nid oes yr un lle gwell i #HyfforddiGweithioByw**

Beth y dylwn ei wneud os oes gennyf gwestiwn?

Os hoffech wybod mwy am y rôl, cysylltwch â Sarah trwy anfon neges e-bost i

DigitalSeniorTeam.hdd@wales.nhs.uk

Neu ewch i'n tudalen Twitter @HddInformatics

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â chymwysterau neu brentisiaethau, cysylltwch â'r Academi Brentisiaeth trwy anfon neges e-bost i

apprenticeship.academy@wales.nhs.uk neu ffonio 07971 480755